

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 19^{eg} MAI 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Will G Roberts - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Annwen Daniels
Bedwyr Gwilym
Rory Francis
Gareth W Jones
Ronwen D Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Mandy Williams-Davies
Kevin Baldwin

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Annwen Daniels – Y Parc

Cynghorydd Erwyn Jones – Y Parc

1. Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd yr Is-Bwyllgor

Etholwyd y Cynghorydd Will G Roberts yn Gadeirydd yr Is-Bwyllgor a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn Is-gadeirydd yr Is-Bwyllgor.

2. Caeau Chwarae

Unwaith eto ni chafwyd adroddiad yr archwiliwr ar gyflwr y caeau chwarae mewn pryd at y cyfarfod. Mae'n hollol bwysig bod yr archwiliad yn cael ei wneud yn fisol er mwyn diogelwch plant. Bu I'r Clerc ofyn am farn ynglŷn â threfn newydd i'r ffurflenni archwilio caeau chwarae.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth a chytuno i'r drefn newydd ar y ffurflenni archwilio'r caeau chwarae.

3. Tendrau'r Cyngor Tref

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag amserlen ar gyfer y tendrau a hefyd sut i hysbysu'r tendrau.

Argymell: I osod dyddiad cau o 30^{ain} o Fehefin ar gyfer yr holl dendrau gyda'r Cyngor Tref i'w trin yng nghyfarfod arferol mis Gorffennaf. I greu poster ar gyfer y tendrau a'u roi yn ffenestr swyddfa'r Cyngor ac ar rwydwaith cymdeithasol.

4. Y Parc

Datgan Diddordeb

Cynghorydd Annwen Daniels

Cynghorydd Erwyn Jones

Cafwyd gwybodaeth bod y cwrs golf gwirion wedi ei osod a bod defnydd da iawn wedi ei wneud ohono yn ystod ei ddyddiau cyntaf. Cafwyd trafodaeth ar sut i redeg y cwrs golf, mae perchennog Y Caffi yn fodlon cymryd yr arian am ddefnyddio'r cwrs a chymryd cyfrifoldeb am y clybiau golf a'r peli. Cafwyd gwybodaeth bod un mainc wedi malu ac wedi ei symud i'r compownd.

Argymell: I drefnu cael ticedi ar gyfer y golf gwirion gyda thal o £1 i blentyn a £2 i oedolyn i'w godi. Y Clerc i drefnu gyda pherchennog Y Caffi i gasglu'r arian. Gan fod perchennog Y

Caffi yn agor a chau'r Parc ac yn cadw'r Parc yn daclus o dan delerau'r brydles ar gyfer Y Caffi bydd unrhyw arian a gasglir o'r golf gwirion i'w rannu'n union gyda hi. I gael S Smith i drwsio'r fainc sydd yn y compownd erbyn hyn.

5. **Ysgoloriaeth Patagonia**

Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r beirniaid ar gyfer Ysgoloriaeth Patagonia 2017 gan fod Mrs Elsi Jones yn gadael yr ardal yn fuan. Cafwyd hefyd drafodaeth a ddylai'r Cyngor Tref chwilio am noddwr ar gyfer y gystadleuaeth.

Argymell: Y Cyngorydd Bedwyr Gwilym i holi Mr Tecwyn V Jones ynglŷn â threfniadau ar gyfer y gystadleuaeth eleni ac i holi Mrs Ceinwen Humphreys a fyddai'n fodlon fod yn un o feirniaid y gystadleuaeth ac i edrych i mewn i gael noddwyr ar gyfer y gystadleuaeth.

6. **Caeau Chwarae**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha gae chwarae fydd yn cael y gwariant ychwanegol o £3000 yn ystod y flwyddyn 2016-2017.

Cafwyd gwybodaeth bod cryn ddiffygion yn yr offer pren ar gae Manod.

Argymell: Penodwyd Cae Baltic i gael y gwariant ychwanegol o £3000 yn ystod 2016-2017. I drefnu cyfarfod gyda'r grŵp a gododd yr arian ar gyfer yr offer pren ar gae Manod i gael trafod eu cyflwr.

7. **Rhestr Offer**

Mae angen paratoi rhestr gyflawn o'r offer chwarae sydd ar y caeau chwarae a hefyd y meinciau yn yr ardal sydd dan ofalaeth y Cyngor Tref.

Argymell: Y Cyngorydd Bedwyr Gwilym i baratoi rhestr o'r offer chwarae a chynghorwyr pob ward i edrych ar feinciau o fewn eu gward ac e-bostio'r wybodaeth i'r Clerc.

8. **Cwmorthin**

Bu i gynghorydd adrodd bod llygredd difrifol oherwydd beiciau modur unwaith eto yn ardal Cwmorthin gyda beiciau hefyd yn dod ar wib dros y bont o Stwlan ac yn malu'r tir.

Argymell: I drafod hyn ymhellach gyda'r heddlu, Parc Cenedlaethol a Chyngor Gwynedd.

9. **Llwybrau Cyhoeddus**

Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd yn talu £2857.50 i ni yn ystod y flwyddyn ariannol hon tuag at gostau cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus.

Cafwyd trafodaeth ynglyn a beth mae'r Cyngor Tref yn gofyn amdano mewn adroddiad ar y Llwybrau Cyhoeddus.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i baratoi swydd ddisgrifiad ar gyfer y Cerddwr Llwybrau.

10. **Caeau Chwarae**

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn e-bost gan Gyngor Gwynedd yn ddiweddar yn cynnig gwerthu sawl llecyn i'r Cyngor Tref gan gynnwys manau chwarae am swm o oddeutu £1. Bydd amodau ynghlwm ac unrhyw werthiant er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod fel manau chwarae a pharciau.

Mae angen matiau diogelwch newydd ar gaeau chwarae Tanygrisiau a Baltic.

Argymell: I ymateb bod diddordeb mewn egwyddor gan y Cyngor Tref ond bod angen mwy o wybodaeth ynglŷn â lleoliad y manau hyn. Y Cynghorwyr Will G Roberts ac Erwyn Jones i fesur cae Tanygrisiau a Baltic ar gyfer matiau diogelwch.

11. **Arwyddion Stryd**

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn cais i gael arwydd newydd ar Dai Barlwyd yn lle'r un sydd wedi mynd yn flêr. Y Cyngor Tref sydd yn gyfrifol am adnewyddu arwyddion stryd ond dim yn gyfrifol am osod arwydd cyntaf ar stryd. Tybir I'r costau fod o gwmpas £500 i osod arwydd newydd ar Tai Barlwyd gan fod yr arwydd gwreiddiol wedi ei osod ar dy. Cafwyd hefyd wybodaeth nad oes arwydd ar Ffordd Cwmbowydd Isaf a bod trigolion yno yn cael cryn drafferthion yn derbyn parseli gan nad yw'r tywyswyr yn gwybod ble mae'r stryd.

Argymell: I ysgrifennu ar y person a wnaeth cais ar gyfer Tai Barlwyd yn egluro nad yw'r sefyllfa ariannol ar hyn o bryd yn caniatáu gosod arwydd newydd ar Tai Barlwyd. I ofyn i Gyngor Gwynedd osod arwydd ar Ffordd Cwmbowydd Isaf.

12. **Parc Sglefrio**

Mae angen gwaith unwaith eto ar rampiau'r Parc Sglefrio. Does dim ateb wedi dod gan yr Angry Scones Racing Team I gais y Cyngor Tref I gael copi o'u hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Argymell: Y Cynghorydd Will G Roberts I drefnu tendr ar gyfer y Gwaith angenrheidiol ar rampiau'r Parc Sglefrio.

I ysgrifennu at yr Angry Scones Racing Team yn egluro eu bod heb gydymffurfio a thelerau eu prydles a bod y Cyngor Tref yn dod a'u prydles i ben. Yn ôl amodau eu prydles disgwylir iddynt ddod ar tir yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.

13. **Cof Golofn Ffestiniog**

Erbyn hyn mae profion llwyddiannus wedi ei gwneud ar ddarn o lechen o Chwarel Braich Ddu a bod gobeithion y bydd hyn yn helpu i lanhau'r calch oddi ar y Gof Golofn.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth.

14. **Goleuadau Nadolig**

Cafwyd gwybodaeth bod sawl un o'r goleuadau Nadolig wedi darfod eu hoes.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i wneud ymholiadau parthed costau goleuadau newydd ac i sicrhau bod unrhyw oleuadau caiff ei prynu yn rhai LED.